

Anadla arnaf...

“A dyma Iesu’n dod ac yn sefyll yn eu canol, ac yn dweud wrthynt, ‘Tangnefedd i chwi!’” (adn. 19)

Beth am ddarllen Ioan 20:19–31 ac yna myfyrio

Deirgwaith yn y darlleniad yma mae Iesu’n cyfarch y disgyblion â’r geiriau: “Tangnefedd i chwi!” Cyn mynd i’r groes, addawodd Iesu i’w ddisgyblion y byddai’n gadael ei dangnefedd iddynt, ac yn awr, yr ochr arall i Galfaria, mae’n cadarnhau hynny. Efallai y byddai rhai’n ystyried mai’r cyfarchiad confensiynol yn unig oedd y geiriau “Tangnefedd i chwi!” Efallai. Ond byddai ailadrodd y cyfarchiad deirgwaith yn sicr o fod wedi atgoffa’r disgyblion am ei addewid gynharach i roi ei dangnefedd neilltuol ef ei hun iddynt.

Yn ogystal â bod yn air a ddefnyddir yn gyffredin wrth sgwrsio, roedd *shalom* hefyd yn derm a oedd yn crynhoi’r holl gysur fyddai’n cofleidio pobl Dduw yn nheyrnas y Meseia. Fel dywedodd George Beasley–Murray, ysgolhaig nodedig ar y Testament Newydd a phrifathro Coleg Spurgeon ar un adeg, yn ei esboniad ar Efengyl Ioan: “Mae *shalom* ar noswyl y Pasg yn gydradd â ‘Gorffennwyd’ ar y groes, gan fod tangnefedd cymod a’r bywyd sydd o Dduw bellach wedi’u rhoi.”

Os ydych chi, fel y disgyblion, yn teimlo eich bod wedi’ch caethiwo gan ofn ar y funud, gadewch i eiriau Iesu lefaru tangnefedd i’ch calon ofidus. Syllwch, fel y disgyblion, ar ei ddwylo a’i ystlys creithiog, ac ailgyneuoch eich llawenydd wrth weld eich Gwardedwr. Y tu draw i farwolaeth, mae’r Un atgyfodedig yn rhoi etifeddiaeth o dangnefedd a bywyd. Gwrandewch eto ar y datganiad buddugoliaethus y buon ni’n ei ystyried ddoe: “... yr wyf fi wedi gorchfygu’r byd.” (Ioan 16:33). O fewn y byd hwnnw mae Crist wedi’i orchfygu mae pob un anhawster y bydd angen i chi ei wynebu yn eich bywyd. Anadlodd Crist dangnefedd ar ei ddisgyblion dryslyd. Os ydy’ch calon chi’n ofidus, mae e’n disgwyl i wneud yr un peth ar eich cyfer chithau’n awr.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 29:1–11; 1 Thes. 5:12–24; Heb. 13:20–21

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ydy cyfarwyddiadau terfynol Paul i’r Thesalonïaid?
2. Gweddïwch fendith yr Hebraïd ar eich cyfer chi eich hun a’ch câr.

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, anadla’r rhodd mae fy nghalon yn dyheu amdani – rhodd tangnefedd. Caniatâ i mi deimlo, o’r funud hon hyd y byddaf farw, dangnefedd a digonolrwydd a nerth – tangnefedd dy bresenoldeb yn ddwfn y tu mewn. Amen.